# Diwygiedig Cynllun Datblygu Lleol 2018-2033

Ionawr 2020

# Cilfach Tywyn



## Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## CYNNWYS


**1 CYFLWYNIAD**

**2 Y CYD-DESTUN DEDDFWRIAETHOL A PHOLISI**

**3 SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU**

**4 SAFLE MOROL EWROPEAIDD BAE AC ABEROEDD CAERFYRDDIN**

**5 Y CYD-DESTUN DATBLYGU – LLANELLI A PHORTH TYWYN**

**6 GOFYNIAD I WAREDU DŴR WYNEB FEL MESUR LLINIAROL**

**7 MONITRO A RHEOLI**


## ATODIADAU


| | |
|---|---|
| **ATODIAD 1** | **CANLLAWIAU TECHNEGOL A CHYFRIFIADAU LLIF** |
| **ATODIAD 2** | **CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL** |
| **ATODIAD 3** | **Y CYD-DESTUN DATBLYGU STRATEGOL A'R BANC GWELLIANT AR GYFER DATBLYGIADAU ARFAETHEDIG CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** |
| **ATODIAD 4** | **CYNLLLUN ENGHREIFFTIOL O DDALGYLCH GWAITH TRIN DŴR GWASTRAFF LLANELLI** |
| **ATODIAD 5** | **CYNLLUN LLEOLIAD SAFLE MOROL EWROPEAIDD BAE AC ABEROEDD CAERFYRDDIN** |
| **ATODIAD 6** | **SIART LIF** |

# 1.0 CYFLWYNIAD

## Diben y canllawiau

1.1 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hyn yn ymhelaethu ar, ac yn atgyfnerthu, bolisïau a darpariaethau Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLld) Sir Gaerfyrddin 2018-2033 - Drafft Adnau (Ionawr 2020), yn fwyaf nodedig bolisi INF4: Trin Dŵr Gwastraff Llanelli Gwaredu Dŵr Wyneb, yn ogystal â SP 8: Seilwaith a CCH3: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnodau Dŵr.

1.2 Er nad yw'r CDLld yn ailadrodd datganiadau polisi cenedlaethol, gellir cyfeirio hefyd at bolisi SP 13: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol, yn fwyaf nodedig o ran y cyfeiriad at Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5 Polisi Cynllunio Cymru (PCC). Nodir hefyd bod cyfeiriad at Nodyn Cyngor Technegol 15 PCC ym mholisi SP15: Y Newid yn yr Hinsawdd.

1.3 Mae'r CCA hwn yn darparu canllawiau penodol mewn cysylltiad ag ystyried cynigion datblygu perthnasol yn nalgylch gwaith trin dŵr gwastraff Llanelli. Er y nodir yn y CDLld bod y pwyslais o ran twf ar Lanelli (Prif Ganolfan) a Phorth Tywyn (Canolfan Wasanaeth), maent yn ystyriaethau amgylcheddol pwysig hefyd, yn anad dim, ansawdd dŵr Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. Mae'r CCA hwn yn ceisio cydbwyso'r ystyriaethau gyda golwg ar hwyluso'r broses o gyflawni twf yn y CDLld hyd at 2033.

1.4 Er bod Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod yna gapasiti i ddarparu ar gyfer twf y CDLld sy'n draenio i waith trin dŵr gwastraff dalgylch Llanelli, maent yn pryderu bod y cysylltiad dŵr budr a grëir gan ddatblygiad newydd yn golygu bod perygl y gallai ansawdd dŵr Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin ddirywio. Y rheswm am hyn yw bod y rhan fwyaf o'r system garthffosiaeth yn yr ardal hon yn gyfun (dŵr wyneb a dŵr budr). Gall cyflwyno llif ychwanegol o ddŵr budr arwain at orlwytho'r gwaith trin dŵr gwastraff, yn ogystal â chynyddu amlder yr arllwysiadau o garthffosiaeth storm fydd yn gorlifo allan i Bae ac Aberoedd Caerfyrddin yn ystod glaw sylweddol. Gall y materion hyn arwain at broblemau llifogydd lleol hefyd. Felly, mae Dŵr Cymru yn gofyn am ddatblygu cynllun dŵr wyneb fel mesur lliniarol.

1.5 Mae'r CCA hwn yn darparu mecanwaith i fynd i'r afael â'r pryderon a amlinellir uchod drwy ganiatáu i lifau ychwanegol o ddŵr budr gael eu cysylltu ar yr amod bod datblygiadau perthnasol yn gwaredu dŵr wyneb o'r garthffos gyfun fel rhan o fesur lliniarol / gwelliant. Yn hyn o beth, mae'n adeiladu ar ddarpariaethau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cilfach Tywyn.

1.6 Y cynigion datblygu hynny sy'n berthnasol i'r CCA hwn fydd y rhai yn ardal gwaith trin dŵr gwastraff dalgylch Llanelli ac a ddiffinnir fel 'datblygiad mawr' yn Erthygl 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.

1.7 Mae mabwysiadu'r CCA hwn hefyd yn gydnabyddiaeth gan y Cyngor o amrywiaeth o ddeddfwriaethau a chanllawiau, yn arbennig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf yr Amgylchedd 2016.

1.8 Mae'r CCA hwn yn sefydlu ffordd dryloyw a chyson o weithredu sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni datblygiadau newydd ar draws ardal gwaith trin dŵr gwastraff Llanelli heb gynyddu'r llygredd (gan gynnwys maetholion) yn yr aber ac felly'n atal dirywiad ansawdd amgylcheddol Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. Mae'r cyd-destun ehangach yn un o bartneriaeth a chydweithio, gyda'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth blaenorol wedi ei ddisodli gan ddatganiad pwysig o dir cyffredin

rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Sir Caerfyrddin.

1.9 Bydd y CCA hwn yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau yn ardal gwaith trin dŵr gwastraff Llanelli.

1.10 Roedd y gwaith o baratoi'r CCA hwn yn destun i ymgynghoriad gyhoeddus ynghyd â'r CDLld adneuol drafft (rhwng 29 Ionawr 2020 a 27 Mawrth 2020) a gwahoddwyd sylwadau ar ei gynnwys. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad mewn modd sy'n gyson â'r hyn a nodir yng Nghytundeb Cyflawni'r CDLld. Bwriedir iddo gael ei fabwysiadu ar yr un pryd â'r CDLld. Dylid nodi bod angen darllen y Cynllun yn ei gyfanrwydd wrth lunio unrhyw gynigion.

# 2.0 Y CYD-DESTUN DEDDFWRIAETHOL A PHOLISI

2.1 Mae amrywiaeth o sbardunau deddfwriaethol a pholisi sy'n berthnasol i ardal Cilfach Tywyn yng nghyd-destun cydbwyso buddiannau datblygiadol ac amgylcheddol.

## Y Cyd-destun deddfwriaethol

2.2 **Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr:** Mae Cilfach Tywyn ac Aber Llwchwr yn rhan o Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Dalgylch Rheoli Bae Caerfyrddin a Gŵyr. Mae tair rhan i'r dalgylch, sef Cilfach Mewnol Tywyn, sy'n gorff dŵr trosiannol, Cilfach Allanol Tywyn a Bae Caerfyrddin (sydd wedi'i isrannu'n 'Gogledd' a 'De'), y ddau yn gyrff dŵr arfordirol. Mae'n ofynnol i'r tri lle fodloni statws ecolegol da o dan Reoliadau Amgylchedd Dŵr y DU (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003 y cyfeirir atynt yn y cytundeb hwn fel y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

2.3 Yn nosbarthiad Cylch 2 Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2015, dynodwyd statws gwael i gyrff dŵr Cilfach Mewnol Tywyn a Chilfach Allanol Tywyn. Dynodwyd statws cymedrol i Fae Caerfyrddin. Gan nad yw'r cyrff dŵr yn bodloni statws ecolegol gofynnol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr heddiw (a gallai hyd yn oed y statws presennol ddirywio) pan gaiff y maethynnau ychwanegol sy'n deillio o'r carthion a gynhyrchir o boblogaeth gynyddol (er bod y gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn parhau o fewn terfynau'r trwyddedau) eu trin a'u rhyddhau i'r aber, efallai y bydd angen mesurau lliniaru ychwanegol i ddiogelu ansawdd y dŵr.

2.4 **Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd** - Mae Cilfach Tywyn ac Aber Llwchwr hefyd yn ffurfio rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae ac Aberoedd Caerfyrddin ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Cilfach Tywyn a Ramsar, y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel Safleoedd Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. Yn sgil buddsoddi penodol yn y blynyddoedd diwethaf yng ngweithfeydd trin dŵr gwastraff Llanelli, Tregŵyr, Pontyberem a Pharc y Sblot, o ganlyniad i arolwg o broses gydsynio Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (a weithredir drwy gyllid AMP Dŵr Cymru), mae'r holl ollyngiadau trwyddedig yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cynefinoedd. Bydd angen asesiad o dan y Rheoliadau Cynefinoedd i unrhyw addasiad i ganiatâd sydd o bosib yn angenrheidiol i ddarparu capasiti ar gyfer mwy o ddatblygu.

2.5 **Ardal Warchodedig Dyfroedd Pysgod Cregyn** - Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ei gwneud hi'n ofynnol pennu ardaloedd gwarchodedig ar gyfer yr ardaloedd hynny sydd wedi'u dynodi i ddiogelu rhywogaethau economaidd arwyddocaol. Mae ardaloedd a ddynodwyd yn flaenorol o dan y Gyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn a ddiddymwyd bellach wedi'u pennu o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae Cilfach Tywyn ac Aber Llwchwr yn cynnwys dwy ardal a ddynodwyd ar gyfer pysgod cregyn, sef Gogledd Cilfach Tywyn a De Cilfach Tywyn.

2.6 Mae ansawdd y dŵr yn yr ardaloedd hyn wedi bodloni'r safonau statudol gofynnol ar gyfer dyfroedd pysgod cregyn ers 2000 ond nid yw'r holl bysgod cregyn a gesglir yn yr aber yn bodloni Dosbarth B o dan y Rheoliadau Hylendid, sef yr ansawdd dymunol a bennwyd gan bolisi Llywodraeth Cymru. Mae angen diogelu ansawdd dŵr pysgod cregyn rhag dirywiad a allai ddeillio o'r ffaith y caiff mwy o lwythau bacteriolegol eu rhyddhau i'r aber o ganlyniad i gynnydd yn y boblogaeth leol.

2.7 **Dyfarniad y Llys (y Nawfed Siambr) ar 4 Mai 2017. Y Comisiwn Ewropeaidd v Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Achos C-502/15** - Yn sgil cwynion cyhoeddus i'r Comisiwn Ewropeaidd yn ymwneud â diffygion wrth weithredu'r Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol, dyfarnodd Llys Cyfiawnder Ewrop ym mis Mai 2017 fod y DU wedi methu â sicrhau bod y dyfroedd a gasglwyd mewn system dŵr gwastraff a dŵr glaw trefol

cyfun yn ardaloedd Tregŵyr a Llanelli wedi cael eu cadw a'u rheoli ar gyfer triniaeth yn unol â'r Gyfarwyddeb (91/271).

2.8 O ganlyniad i'r dyfarniad, mae awdurdodau cymwys yn gweithredu rhaglen waith gynhwysfawr i sicrhau y cydymffurfir â'r dyfarniad erbyn 2020, gan ystyried yr amcan cyffredinol i ddiogelu'r amgylchedd. Ymgymerir â'r rhaglen waith yn unol ag egwyddor 'yr wybodaeth dechnegol orau nad yw'n costio gormod' a bydd yn cyfrannu'n sylweddol at leihau amledd y gollyngiadau dŵr a faint o ddŵr wyneb a ddaw o'r system gasglu cyn iddo gael ei drin.

2.9 Er y gellir dadlau mai'r prif ffactor sy'n gyrru'r rhaglen waith hon yw cydymffurfiaeth reoleiddiol, yn hytrach na chyflawni datblygiad newydd, gellir cyfeirio at gyfraniad anuniongyrchol y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fel yr amlinellir isod.

### Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

2.10 Bu "Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth - Diogelu Amgylchedd Cilfach Tywyn ac Aber Llwchwr ar yr un pryd â Galluogi Datblygiad Cymdeithasol ac Economaidd ar gyfer Cymunedau yn ardal Llanelli a Thregŵyr" ar waith ers peth amser, gyda'r fersiwn ddiweddaraf yn ddyddiedig Medi 2011.

2.11 Er mai prif gymhelliad y Memorandwm yw datblygiadau newydd, bu'n gymorth i gefnogi'r rhaglen gynhwysfawr o waith y cyfeirir ati yn 2.8 uchod. Y bwriad yw sicrhau dull tryloyw o ddiogelu ansawdd dŵr Cilfach Tywyn ac Aber Llwchwr. Mae'n nodi dull cydweithredol sy'n helpu i gyflawni datblygiadau newydd ar draws ardal y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth heb gynyddu'r llygredd, gan gynnwys maetholion, yn yr aber, gan felly atal dirywiad ansawdd amgylcheddol Cilfach Tywyn ac Aber Llwchwr.

## Polisi Cynllunio Cenedlaethol

### Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10, Rhagfyr 2018)

2.12 Mae PCC yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru ac fe'i hategir gan nifer o ddogfennau, gan gynnwys nodiadau cyngor technegol. Mae paragraff 6.4.14 PCC yn nodi y "dylid cyflawni cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cadwraeth rhyngwladol a chenedlaethol yn llawn ac, yn unol ag amcanion y dynodiad, dylid gwarchod safleoedd dynodedig statudol rhag difrod a dirywiad yn unol ag amcanion y dynodiad, gyda'u nodweddion pwysig yn cael eu gwarchod a'u gwella trwy reoli'n briodol". Dylid cyfeirio hefyd at baragraff 6.4.18 o PCC, yn arbennig "... fel arfer, ni chaiff y datblygiad ei ganiatáu na'r cynllun ei fabwysiadu oni bai fod yr awdurdod cynllunio yn sicrhau na chaiff effaith andwyol ar integriti'r safle, gan ystyried hefyd yn ôl y gofyn unrhyw fesurau, amodau cynllunio neu rwymedigaethau ychwanegol" .

2.13 Mae paragraff 6.6.9 o PCC yn darparu canllawiau ar gapasiti'r cyflenwad dŵr a'r seilwaith carthffosiaeth/draenio – tra bod 6.6.14 yn rhoi arweiniad ar ansawdd dŵr a llifogydd dŵr wyneb. Mae'n werth sylwi ym mharagraff 6.6.15 PCC at y cyfeiriad hwn "..... mannau cynaliadwy fydd y rheini sydd â rhwydweithiau cydnerth sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar gyfer carthffosiaeth a draenio gyda digon o gapasiti i reoli'r galw arnynt heb achosi llygredd neu lifogydd dŵr wyneb."

### Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5, Cadwraeth Natur a Chynllunio (Medi 2009):

2.14 Mae TAN 5 yn rhoi cyngor ar sut y dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol. Mae'n rhoi trosolwg o'r holl ddeddfwriaeth berthnasol o fewn y maes ac yn dangos sut y gall awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr a rhanddeiliaid allweddol ym maes cadwraeth weithio gyda'i gilydd i sicrhau datblygu mwy cynaliadwy nad yw'n arwain at golli agweddau ar y dreftadaeth naturiol ond yn

hytrach yn manteisio ar bob cyfle i'w gwella (paragraff 1.6.1). Mae TAN 5 hefyd yn rhoi canllawiau ar ddefnyddio rhwymedigaethau ac amodau cynllunio – (adrannau 4.6 a 4.7 o TAN 5).

2.15 Nodir bod paragraff 3.4.2 TAN 5 yn datgan y caiff Awdurdodau Cynllunio Lleol fabwysiadu CCA i ddarparu canllawiau mwy manwl, sy'n berthnasol yn lleol ar gyfer sicrhau atebion mwy cynaliadwy i broblemau a chyfleoedd datblygu sy'n parchu prosesau naturiol a systemau ecolegol.

**Amodau a Rhwymedigaethau Cynllunio**

2.16 Cyfeirir at y Llawlyfr Rheoli Datblygu (Diweddariad 2 Llywodraeth Cymru, Mai 2017). Mae paragraff 10.1.1 yn nodi y gall amodau a rhwymedigaethau cynllunio alluogi cynigion datblygu i fynd yn eu blaenau lle byddai angen gwrthod caniatâd cynllunio fel arall.

2.17 Mae Cylchlythyr Lywodraeth Cymru 016/2014 yn rhoi canllawiau ar ddefnyddio Amodau Cynllunio ar gyfer Rheoli Datblygu. Mae paragraff 1.2 yn nodi bod y grym i osod amodau wrth roi caniatâd cynllunio yn eang iawn. Os cânt eu defnyddio'n briodol, gall amodau wella ansawdd datblygiad a galluogi llawer o gynigion datblygu i fynd rhagddynt lle byddai wedi bod yn angenrheidiol fel arall i wrthod caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, bodlonir amcanion cynllunio orau pan gaiff y pŵer hwnnw ei arfer yn y fath fodd ag y gwelir yn glir bod yr amodau yn deg, yn ddealladwy, yn rhesymol ac yn ymarferol. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi canllawiau ar sut y gellir cyflawni hyn.

2.18 Nodir y chwe phrawf isod ym mharagraff 3.1 y Cylchlythyr. Drwy ei fabwysiadu, mae'r Cyngor yn fodlon bod y CCA hwn yn bodloni'r profion hyn wrth nodi ymyriad polisi lefel Cynllun i'w weithredu yng nghyfnod y CDLl – yn arbennig i gefnogi datblygu yn ardaloedd Llanelli a Phorth Tywyn. O ran angen, cyfeirir at y cais penodol gan Dŵr Cymru i gael gwared ar ddŵr wyneb fel mesur lliniarol yn rhan o gymeradwyaethau cynllunio. Dylid nodi fod y CCA hwn yn cynrychioli ymyriad polisi o fewn ardal ofodol ddiffiniedig (h.y. dalgylch gwaith trin dŵr gwastraff Llanelli).

(i) yn angenrheidiol;
(ii) yn berthnasol i gynllunio;
(iii) yn berthnasol i'r datblygiad sydd i'w ganiatáu;
(iv) y mae modd ei orfodi;
(v) yn fanwl gywir; ac
(vi) yn rhesymol ym mhob ystyr arall.

2.19 Mae paragraff 10.3.8 o Lawlyfr Rheoli Datblygu 2017 yn egluro na ddylid defnyddio rhwymedigaethau cynllunio ac eithrio pan nad oes modd mynd i'r afael ag effaith annerbyniol drwy amod cynllunio. Ni chredir ei bod hi'n debygol y bydd y Cyngor yn ymrwymo i rwymedigaeth gynllunio gyda datblygwr i weithredu'r CCA hwn.

2.20 Nodir y profion cyfreithiol ar gyfer rhwymedigaethau cynllunio yn Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd) (a nodir isod).

- yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio
- yn uniongyrchol gysylltiedig â datblygu
- yn gysylltiedig o ran graddfa a math i'r datblygiad mewn modd rhesymol a theg

2.21 Caiff canllawiau gweithdrefnol ar sut y dylai'r awdurdodau cynllunio negodi a defnyddio'r rhwymedigaethau cynllunio yn briodol eu darparu drwy Rwymedigaethau Cynllunio Cylchlythyr 13/97 y Swyddfa Gymreig (8 Gorffennaf 1997).

**Polisi Cynllunio Lleol - CDLl Diwygiedig Sir Gaerfyrddin**

2.22 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hwn yn ymhelaethu ac yn atgyfnerthu polisïau a darpariaethau Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (CDLld) 2018-2033 Adnau Drafft (Ionawr 2020), yn fwyaf nodedig polisi INF 4 a welir isod.

2.23 '**INF4: Trin Dŵr Gwastraff Llanelli Gwaredu Dŵr Wyneb**

**Bydd cynigion sy'n draenio i Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli ac a ddiffinnir fel rhai pwysig dan Erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn ddarostyngedig i ofyniad i gael gwared â swm mesuradwy o ddŵr wyneb o'r system garthffosiaeth gyfunol fel a nodir yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Cilfach Porth Tywyn.'**

2.24 Er nad yw'r CDLld yn ailadrodd datganiadau polisi cenedlaethol, gellir cyfeirio hefyd at bolisi SP 13: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol, yn fwyaf nodedig o ran y cyfeiriad at Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5, Polisi Cynllunio Cymru (PCC). Nodir hefyd fod cyfeiriad at TAN 15 PCC ym mholisi SP15: Y Newid yn yr Hinsawdd.

# 3.0 SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU

3.1 Mae cysoni gofynion sydd o bosibl yn cystadlu â'i gilydd wedi arwain at sefydlu dull o gydweithio â phartneriaid. Yn hyn o beth, mae swyddogaethau rhanddeiliaid allweddol a nodwyd yn dilyn isod:

## Dŵr Cymru

3.2 Mae Dŵr Cymru yn gyfrifol am gasglu, trin a gwaredu carthion yn yr ardaloedd y mae gwaith trin dŵr gwastraff Llanelli yn eu gwasanaethu. Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau carthffosiaeth i'w gwsmeriaid, gan gydymffurfio â'i drwyddedau rhyddhau a darparu ar gyfer datblygiad priodol. Drwy'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (gweler paragraff 3.11 isod) a thrafodaethau parhaus wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol diwygiedig, mae Dŵr Cymru yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor a Dinas Abertawe a Chyngor Sir Caerfyrddin er mwyn hwyluso datblygiad a gwneud ei ran wrth wella statws ecolegol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer Cilfach Tywyn ac Aber Llwchwr, yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

3.3 Mae Dŵr Cymru yn parhau i ateb y galw cynyddol am wasanaethau carthffosiaeth drwy fecanweithiau deddfwriaethol a rheoleiddiol, a buddsoddiad mewn cyflenwi/galw fel y nodir yn y rhaglen rheoli asedau. Bydd y buddsoddiad drwy'r Rhaglen Rheoli Asedau yn cefnogi twf ac adfywio yn y dyfodol fel y nodir mewn Cynlluniau Datblygu.

3.4 Mae Dŵr Cymru hefyd yn buddsoddi mewn gwelliannau ychwanegol i'w seilwaith carthffosiaeth. Mae hyn yn ofynnol er mwyn gwella gwasanaeth a chyflawni ei rwymedigaethau o dan raglen Amgylchedd Cenedlaethol Cymru. Cychwynnodd y rhaglen £113m hon yn 2010 a bydd yn parhau hyd at ddiwedd 2020. Amcanion y rhaglen yw lleihau amlder a chyfaint yr hyn a ryddheir gan orlifiadau carthffosydd cyfun yn unol â'u rhwymedigaethau o dan raglen Amgylchedd Cenedlaethol Cymru a lleihau'r risg o lifogydd carthion i'w cwsmeriaid mewn ffordd gynaliadwy ac sy'n bosibl yn dechnegol. Ni chynlluniwyd y rhaglen hon i greu lle i ddatblygu ac mae'n cydredeg ag unrhyw waith sydd ei angen i ateb y galw cynyddol am wasanaethau carthffosiaeth. Un enghraifft yw'r buddsoddiad Glawlif yn ardal Llanelli.

3.5 Mae Dŵr Cymru yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn enwedig lle gallai pryderon ynghylch cydymffurfio â therfynau meintiol neu ansoddol yn y gwaith gyfyngu ar dwf a gynlluniwyd yn yr ardal. Dylid nodi bod DCWW yn ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio, ac o'r herwydd gall ddylanwadu ar yr amodau a gynhwysir o ran gwaredu Dŵr Wyneb.

## Awdurdodau Cynllunio Lleol

3.6 Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n gyfrifol am nodi'r cyd-destun strategol ar gyfer amcanion datblygu a defnydd tir yn y dyfodol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol yn yr ardal. Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol Abertawe a Sir Gaerfyrddin hefyd yn gyfrifol am benderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â pholisïau a darpariaethau eu cynlluniau datblygu mabwysiedig oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu'n wahanol.

3.7 Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol Abertawe a Sir Gaerfyrddin yn ymgynghori â Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru drwy gydol y broses o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, er mwyn nodi'r galwadau ar ddarpariaeth seilwaith yn y dyfodol mewn modd amserol.

## Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

3.8 CNC yw'r awdurdod cymwys sy'n gyfrifol am roi polisïau amgylcheddol ac amddiffyn rhag llifogydd Llywodraeth Cymru ar waith. Gwnânt hyn drwy bennu amodau trwyddedau ar gyfer gollyngiadau presennol neu newydd, monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â thrwyddedau, rheoli amddiffyn rhag llifogydd ac ymgynghori ar ddatblygiadau newydd i sicrhau nad ydynt yn torri polisïau amddiffyn rhag llifogydd.

3.9 Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn gweithio gyda Dŵr Cymru i sicrhau y caiff eu gollyngiadau eu caniatáu'n briodol ac i benderfynu ar unrhyw amrywiadau neu addasiadau arfaethedig i drwyddedau mewn modd sy'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Yn benodol, bydd CNC yn sicrhau bod unrhyw geisiadau am drwyddedau newydd neu amrywiadau/addasiadau i drwyddedau presennol yn ddibynnol ar asesiad o dan reoliad 61 o'r Rheoliadau Cynefinoedd.

3.10 Bydd CNC yn ymgynghori ar ddatblygiadau a gyflwynwyd ar gyfer cynllunio er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisi priodol Llywodraeth Cymru ar lifogydd ac amddiffyn rhag llifogydd.

## Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Cilfach Tywyn

3.11 Bu "Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth - Diogelu Amgylchedd Cilfach Tywyn ac Aber Llwchwr gan alluogi Datblygu Cymdeithasol ac Economaidd ar gyfer Cymunedau yn Ardal Llanelli a Thregŵyr" ar waith ers peth amser, gyda'r fersiwn ddiweddaraf yn ddyddiedig Medi 2011.

3.12 Bwriad y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw sicrhau dull tryloyw o ddiogelu ansawdd dŵr Cilfach Tywyn ac Aber Llwchwr. Mae'n amlinellu dull cydweithredol sy'n helpu i gyflawni datblygiadau newydd ledled ardal y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth heb gynyddu'r llygredd, gan gynnwys maetholion, yn yr aber ac felly atal dirywiad yn ansawdd amgylcheddol Cilfach Tywyn ac Aber Llwchwr.

3.13 Fel canllaw cyffredinol, mae dwy agwedd allweddol i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Y rhain yw (1) partneriaeth a (2) gweithredu cynllun lliniarol o waredu dŵr wyneb yn rhan o roi caniatâd cynllunio. O ran partneriaeth, y rhai a lofnododd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw Dinas a Sir Abertawe, CNC, Cyngor Sir Caerfyrddin a Dŵr Cymru. Nid dogfen gyfreithiol yw'r cydweithio hwn ar ran y partneriaid i fynd i'r afael â materion ansawdd dŵr drwy'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, ac mae modd i bartïon sy'n dymuno terfynu eu hymwneud â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn wneud hynny gyda rhybudd ysgrifenedig.

3.14 O ran y gofyniad lliniarol i gael gwared ar ddŵr wyneb, mae'r ffordd hon o weithio wedi hen ymsefydlu yn yr ardal, ac ategir hyn gan brosesau cysylltiedig – e.e. darparu cofrestr gwasanaethau gwaredu dŵr wyneb. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi caniatáu i ddatblygu barhau ar draws yr ardal dros y blynyddoedd diwethaf ac fe'i gwelwyd fel dangosydd cyflawni yn ystod mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2006-2021 (Mabwysiadwyd 2014).

3.15 Gyda dyfodiad cynlluniau cydbwyso i waredu dŵr wyneb drwy'r system gynllunio, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol Abertawe a Sir Gaerfyrddin yn cyfrannu at yr ymdrechion ehangach hynny i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ansawdd dŵr a seilwaith lleol yn yr ardal (gweler Adran 2 o'r CCA hwn). Felly, byddai datblygu sy'n gwaredu dŵr wyneb o'r system gyfun yn cyfrannu at wella'r sefyllfa mewn ardal o her yn hytrach na chreu sefyllfa niweidiol.

## Y Dyfodol

3.16 Yn rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLld, mae Dŵr Cymru wedi nodi, er bod digon o gapasiti i ddarparu ar gyfer y twf a glustnodwyd ar gyfer Llanelli a Phorth Tywyn, fod pryder ynghylch y ffaith bod y system dŵr wyneb a dŵr budr yn un gyfun. Fel y cyfryw, nodwyd y gofyniad parhaus i adeiladu ar ddarpariaethau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn y CDLld fel rhan o ddull partneriaeth.

3.17 At hynny, mae angen adolygu fersiwn mis Medi 2011 o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. I'r perwyl hwn, o ran Sir Gaerfyrddin, cynigir y caiff y CCA hwn ei ddefnyddio i baratoi'r CDLld ac i ddarparu'r mecanwaith cydbwyso ar gyfer gwaredu dŵr wyneb. O ran llywodraethu a phartneriaeth ehangach, caiff datganiad pwysig o dir cyffredin ei lofnodi gan bob parti.

3.18 Bwriad mabwysiadu'r CCA hwn yw bodloni'r rhanddeiliaid allweddol eraill o ran eu gofynion rheoleiddio a hefyd gadarnhau bod modd cyflawni'r CDLld. Dylid cyfeirio hefyd at Adran 7(rheoli a monitro).

# 4.0 SAFLE MOROL EWROPEAIDD BAE AC ABEROEDD CAERFYRDDIN

4.1 Mae cydnabod y cyd-destun datblygu yn bwysig, yn enwedig o ran yr ystyriaethau a'r dynodiadau amgylcheddol.

## Trosolwg

4.2 Mae Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin yn rhan o rwydwaith o ardaloedd ledled Ewrop – cyfres Natura 2000 – a ddynodwyd o dan Gyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar yr Undeb Ewropeaidd i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau pwysig ac sydd o dan fygythiad yn Ewrop. Gyda'i gilydd mae tri safle morol Natura 2000 yn ffurfio'r Safle Morol Ewropeaidd – Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae ac Aberoedd Caerfyrddin, Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Bae Caerfyrddin, ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Cilfach Tywyn. Mae Cilfach Tywyn hefyd yn safle Ramsar a dylid nodi bod y safleoedd a ddynodwyd yn wlypdiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol o dan Gonfensiwn Ramsar yn ddarostyngedig i'r un darpariaethau a safleoedd Natura 2000.

4.3 Wrth lunio'r CCA hwn, rhoddwyd sylw i Gyfarwyddeb Ewropeaidd 92/43/EEC (fel y'i gweithredwyd yn y DU gan Reoliadau Cynefinoedd 2017) ynghyd â chanllawiau a gyhoeddwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 5. Cyfeirir at Adran 2 o'r CCA hwn (cyd-destun deddfwriaethol a pholisi) yn y cyswllt hwn.

4.4 Mae gwybodaeth fanwl am y dynodiadau, nodweddion diddordeb ac amcanion cadwraeth, yn ogystal â phwysau posibl ar Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerdydd, ar gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, yng nghyd-destun y CCA hwn, nodir bod y dyfroedd hyn ymysg y rhai sydd wedi'u dynodi a'u diogelu fwyaf yn Ewrop. Bu ymwybyddiaeth o faterion o'r fath yn rhan annatod o'r gwaith o baratoi'r CDLld, y mae pob cam ohono'n seiliedig ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel cynllun.

4.5 Mae Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin yn union gerllaw arfordir Llanelli a Phorth Tywyn. Mae Adran 5 o'r CCA hwn yn amlinellu pwysigrwydd strategol yr aneddiadau hyn i'r CDLld o safbwynt twf / datblygu.

4.6 Cyfeirir hefyd at Adran 2 o'r CCA hwn – y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi – yn arbennig Nodyn Cyngor Technegol 5 Polisi Cynllunio Cymru.

## CDLld - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Rhagfyr 2018)

4.7 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cam sgrinio rhagarweiniol lefel uchel o'r Strategaeth a Ffefrir. Ymgymerodd â sgrinio generig ar lefel uchel o faterion a allai arwain at effeithiau sylweddol tebygol, ac mae'n nodi unrhyw bolisïau strategol na fyddai'n amlwg yn cael unrhyw effaith ar Safleoedd Ewropeaidd gan alluogi eithrio'r rhain o unrhyw asesiad pellach. O'r herwydd, byddai asesiad pellach, manylach yn cael ei gymhwyso'n unig at safleoedd dyrannu, neu bolisïau, lle gallai effaith sylweddol debygol fod yn bosibl. Dylid nodi na ellid diystyru effaith bosibl yr CDLld ar Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin ar y cam cynnar hwn.

## CDLld - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Ionawr 2020)

4.8 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys adolygiad manylach o'r CDLld adnau drafft, o ystyried bod y polisïau manwl wedi'u paratoi a bod rhestr lawn o'r safleoedd dyrannu wedi'u nodi yn y cynllun adnau drafft. Mae'r adnau drafft hefyd yn nodi'r gofyniad twf cyffredinol ar gyfer ardaloedd Llanelli a Phorth Tywyn.

4.9 Dylid gweld y CCA hwn fel ymyriad polisi cadarnhaol, sy’n adlewyrchu pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol ond sydd hefyd yn cadarnhau bod modd cyflawni’r datblygiad a nodwyd yn y cynllun.

4.10 At hynny, yn hytrach na chael effaith negyddol, gall datblygiad gynorthwyo i wella’r sefyllfa o ‘welliant’ cadarnhaol drwy gynorthwyo gyda’r ymdrechion ehangach hynny i waredu dŵr wyneb o’r system gyfun (mae Adran 3 o’r CCA hwn yn sôn mwy am yr hyn y mae partneriaid yn ei wneud – e.e. rhaglen Glawlif Dŵr Cymru).

### Manteision ehangach

4.11. Mae’r CCA hwn hefyd yn darparu cyfleoedd i fynd i’r afael â materion eraill a allai ddod i’r amlwg o ystyried natur y system garthffosiaeth gyfun yn ardal Llanelli – yn arbennig llifogydd lleol. Mae hyn er mwyn cydnabod sbardunau deddfwriaethol allweddol – yn arbennig Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 a Deddf yr Amgylchedd 2016.

# 5.0 Y CYD-DESTUN DATBLYGU – LLANELLI A PHORTH TYWYN

5.1 Mae cydnabod y cyd-destun datblygiadol yn bwysig, yn enwedig o ran swyddogaeth Llanelli a Phorth Tywyn yn cyflawni'r datblygiad a nodwyd yn y CDLld.

## Llanelli

5.2 Dynodwyd Llanelli yn Brif Ganolfan yn nrafft adnau y CDLld (Ionawr 2020). Neilltuwyd 1707 o unedau preswyl yn Llanelli (gan gynnwys Pwll). Dyrannwyd tua 16 hectar o dir cyflogaeth arfaethedig. Mae hyn yn gynnydd nodedig o ran y cynllun cyffredinol ar gyfer y Sir ac felly mae'n bwysig hwyluso'r twf hwn.

5.3 Cynlluniwyd Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd ar gyfer Llanelli. Disgwylir i'r safle gwerth £200miliwn a gynlluniwyd ar gyfer Llynnoedd Delta ar arfordir Llanelli greu yn agos at 2,000 o swyddi a rhoi hwb o £467miliwn i'r economi leol. Mae safleoedd tai nodedig eraill a ddynodwyd yn y CDLld yn cynnwys dyraniad Cwm y Nant yn ardal Dafen.

5.4 Mae pwyslais corfforaethol ehangach ar Lanelli. Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin - y 5 mlynedd nesaf - yw Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2018 - 2023 (cymeradwywyd 2018 - diweddarwyd 2019). Mae ardal Tyisha, canol tref Llanelli a Phentref Llesiant a Gwyddor Bywyd ymysg y prosiectau a nodir yn y strategaeth gorfforaethol hon. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu tai fforddiadwy, a chafodd y Cyngor adroddiad "adeiladu mwy o gartrefi - cynyddu ein huchelgais" ym mis Chwefror 2019 - gyda fframwaith bandio i arwain y gwaith. Nodir y cyfeirir at gyfanswm o 917 uned a buddsoddiad o £141m ar draws bandiau A, B a C. O'r rhain, clustnodwyd 439 uned a £73.5m o fuddsoddiad ar gyfer ardal Llanelli a'r cylch.

5.5 Mae cyfraniad gofodol a gweithredol Llanelli i Ranbarth / Bargen Bae Abertawe, ac unrhyw Gynllun Datblygu Strategol sy'n ymddangos yn Abertawe, hefyd yn amlwg. Cyfeirir at y cyfeiriad penodol at Fae Abertawe a Llanelli yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd (drafft – cyhoeddwyd 7 Awst 2019) yn hyn o beth.

5.6 Gweler Atodiad 3 y CCA hwn ar gyfer arfarniad manylach o'r cyd-destun datblygu.

## Porth Tywyn

5.7 Dynodir Porth Tywyn / Pen-bre yn Ganolfan Wasanaethau yn adnau drafft y CDLld (Ionawr 2020). Neilltuwyd 501 o unedau preswyl ym Mhorth Tywyn (heb gynnwys safleoedd fferm y Cwrt a Garreglwyd ym Mhen-bre ac ni fyddant yn draenio i waith trin dŵr gwastraff Llanelli). Dynodwyd tua 3 hectar o dir cyflogaeth arfaethedig ym Mhorth Tywyn.

5.8 Mae'r gwaith o weddnewid Porth Tywyn yn mynd rhagddo ac eisoes mae nifer o ddatblygiadau cyffrous yn cael eu cyflwyno, ac mae mwy ar y gweill. Mae adfywio Harbwr Porth Tywyn yn brosiect mawr a gefnogir gan Bartneriaeth Cyd-fenter Arfordir Llanelli rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a Llywodraeth Cymru.

5.9 Gweler Atodiad 3 y CCA hwn am arfarniad manylach o'r cyd-destun datblygu.

## Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff

5.10 Agwedd allweddol wrth gyflawni datblygu cynaliadwy - yn arbennig o safbwynt seilwaith, amwynder ac amgylcheddol - yw ffordd addas o drin llifau dŵr. Mae datblygiadau yn Llanelli a Phorth Tywyn (heb gynnwys Pen-bre) yn draenio i waith trin dŵr gwastraff Llanelli. Ceir cynllun enghreifftiol yn Atodiad 4. Er bod digon o gapasiti i ymdopi â'r twf a glustnodwyd ar gyfer Llanelli a Phorth Tywyn, mae Dŵr Cymru wedi dangos bod pryder ynghylch y ffaith bod y rhwydwaith yn un cyfun (dŵr budr a dŵr wyneb) ac felly'n gofyn am ddatblygu cynllun dŵr wyneb fel mesur lliniaru.

5.11 Yn nalgylch gwaith trin dŵr gwastraff Llanelli, mae pryderon y byddai cysylltu llifoedd dŵr budr a gynhyrchir gan ddatblygiad newydd yn cyflwyno'r risg o ddirywiad yn ansawdd dŵr Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin. Y rheswm am hyn yw bod y rhan fwyaf o'r systemau carthffosiaeth yn yr ardal hon yn rhai cyfun (llifau dŵr wyneb a dŵr budr). Gall cyflwyno dŵr budr ychwanegol arwain at orlwytho'r gwaith trin dŵr gwastraff, yn ogystal â chynyddu amlder yr arllwysiadau carthffosiaeth oherwydd stormydd yn gorlifo allan i Safle Morol Ewropeaidd Bae ac Aberoedd Caerfyrddin yn ystod glaw trwm. Gall y materion hyn arwain at broblemau llifogydd lleol hefyd.

## I ba raddau y gellir gwireddu twf y CDLld yn Llanelli a Phorth Tywyn

5.12 Er mwyn ailddatgan bod modd datblygu'r safleoedd a ddynodwyd yn Llanelli a Phorth Tywyn yn yr CDLld, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod bod angen cynnig adeiladu ar ddulliau gweithredu sydd eisoes ar waith ym Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cilfach Tywyn.

5.13 Mae'r CCA hwn yn darparu mecanwaith i fynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy ganiatáu cysylltu llifau dŵr budr ychwanegol ar yr amod bod datblygiadau perthnasol yn gwaredu dŵr wyneb o'r garthffos gyfun fel rhan o fesur lliniaru / gwelliant. Dylid cyfeirio at Adran 6 o'r CCA hwn yn hyn o beth.

5.14 Mae'r mecanwaith a amlinellir yn y CCA hwn yn cadarnhau bod modd gwireddu'r datblygiad yn Llanelli a Phorth Tywyn. Mae'n darparu dull tryloyw a chyson o weithredu sy'n rhoi sicrwydd i ddatblygwyr a buddsoddwyr, gan fodloni rhanddeiliaid allweddol hefyd, yn cynnwys Dŵr Cymru a CNC.

# 6.0 GOFYNIAD I WAREDU DŴR WYNEB FEL MESUR LLINIAROL

## Trosolwg

6.1 Yn rhan o roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau perthnasol, mae Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin yn ei gwneud hi'n ofynnol gwaredu swm mesuradwy o ddŵr wyneb o'r system gyfun fel y'i mynegir mewn litrau. Yna, caiff credydau o'r fath eu cofnodi ar y gofrestr gwaredu dŵr wyneb (gweler adran 7 o'r CCA hwn).

6.2 Mae cael gwared ar ddŵr wyneb yn debygol o olygu atebion pwrpasol, gan ddibynnu ar faint a lleoliad y datblygiad. Yn nhermau'r credyd litrau, efallai y bydd y ffigur gwelliant gwirioneddol yn ddibwys. Er gwaethaf hyn, ni ddylai fod unrhyw niwed o ran llifau dŵr, gyda modd mesur y credydau a gyflawnwyd. Fodd bynnag, dylid cyfeirio at baragraff 2.3.5 o Atodiad 1 y CCA hwn.

6.3 Bydd gofyniad i gyflwyno adroddiad draenio i awdurdod cynllunio lleol Sir Gaerfyrddin sy'n dangos y gellir sicrhau gwelliant a bod y chwiliad dilyniannol gofynnol wedi'i ddilyn. Cyfeirir at Atodiad 6 o'r CCA hwn (siart lif). Mae Atodiad 1 o'r CCA hwn yn darparu gwybodaeth am gyfrifo llifau ac yn nodi enghraifft eglurhaol ar gyfer uned preswyl sy'n cynnwys ffactor gwelliant x2.

6.4 Er nad yw cyflwyno'r adroddiad draenio yn ofyniad dilysu, cynghorir datblygwyr yn gryf y dylai ystyriaeth gynnar ac amserol fod yn ymhlyg yn y cynigion datblygu. Cynghorir yn gryf y dylid dechrau trafod mewn da bryd â rhanddeiliaid allweddol - yn enwedig Dŵr Cymru. Dylid nodi mai datblygiadau perthnasol fydd y rhai hynny fydd yn destun ymgynghoriad cyn ymgeisio ac felly mae hyn yn rhoi digon o gyfle i ystyried gofynion y CCA hwn - gweler paragraff 6.16 isod.

## Datblygiadau Perthnasol

6.5 Y datblygiadau hynny sy'n ddarostyngedig i'r gofyniad gwelliant yw'r rhai sy'n draenio i waith trin dŵr gwastraff Llanelli a diffinnir fel rhai mawr o dan Erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Cyfeirir hefyd at baragraff 6.14 isod. Yn gryno, datblygiadau mawr yw:

- Datblygiadau tai o 10 annedd neu fwy neu lle mae arwynebedd y safle yn 0.5 hectar neu fwy (os nad yw nifer yr anheddau yn hysbys);
- Darparu adeilad(au) lle mae arwynebedd y llawr yn fwy na 1,000 metr sgwâr;
- Cloddio a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gwaith mwynau;
- Datblygu gwastraff; a
- Datblygiad a wneir ar safle o 1 ha neu fwy.

6.6 Os gwêl y Cyngor fod datblygwyr wedi rhannu safleoedd yn unedau llai er mwyn osgoi cyfrannu at ddarpariaethau polisi INF4 y CDLl, fel yr ymhelaethir arno yn y CCA hwn, cyfrifir cyfanswm darpariaeth y cynllun a chaiff y gofyniad polisi ei gymhwyso'n unol â hynny. Bydd y dull hwn hefyd yn berthnasol pan gaiff ceisiadau cynllunio eu llunio dros gyfnod o amser.

## Gofyniad chwilio dilyniannol

6.7 Dylid cofnodi hyn yn yr adroddiad draenio. Bydd angen i Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin fod yn fodlon bod asesiad trwyadl wedi'i gynnal a bydd yn cysylltu â rhanddeiliaid allweddol – yn enwedig Dŵr Cymru - yn hyn o beth.

**Dylid nodi ym mhob achos na chaniateir i unrhyw ddŵr wyneb newydd ddod i mewn i'r system.**

- 1 Ateb ar y safle ar gyfer gwaredu dŵr wyneb o'r system garthffosiaeth gyhoeddus (ar neu wrth ymyl y safle) fel mesur lliniarol;
- 2A Datrysiad is-ddalgylch ar gyfer gwaredu dŵr wyneb o'r system garthffosiaeth gyhoeddus;
- 2b Datrysiad i ddalgylch ehangach ar gyfer gwaredu dŵr wyneb o'r system garthffosiaeth gyhoeddus.

6.8 Os yw'r adroddiad draenio yn dangos, ac yn bodloni Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin, na ellir cael gwared ar swm mesuradwy o ddŵr wyneb, yna gall datblygwyr fynd ar ofyn Dŵr Cymru i weld a oes cyfle i ariannu cynllun drwy Dŵr Cymru. Bydd Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin yn hysbysu'r datblygwr o'r dewis hwn yn ysgrifenedig, yn dilyn adborth gan Dŵr Cymru.

6.9 Dylid cyfeirio at 6.11 isod i weld cynigion Cyngor Sir Caerfyrddin.

## Dŵr Cymru

6.10 Ar ôl y chwiliad dilyniannol, os na all ymgeisydd ganfod cynllun, yna gall fynd at Dŵr Cymru i weld a oes cyfle i ariannu un o'u cynlluniau nhw. Ni ellir gwneud hyn nes y bydd Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin yn hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig. Yna caiff trafodaethau eu cynnal rhwng Dŵr Cymru a'r datblygwr a bydd angen i awdurdod cynllunio lleol Sir Gaerfyrddin gael cadarnhad ysgrifenedig gan Dŵr Cymru bod ateb derbyniol wedi'i ganfod.

6.11 Er na allant ddarparu rhestr o gynlluniau 'wrth gefn' i'w cynnwys yn y CCA hwn, mae Dŵr Cymru yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr a wnaed o ran cael gwared â dŵr wyneb drwy'r system ddatblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dim ond rhan o becyn ehangach o ymyriadau i fynd i'r afael â materion seilwaith yn ardal Llanelli yw datblygiad o'r fath. Byddant yn ceisio gweithio'n adeiladol gydag ymgeiswyr, ond ym mhob achos dylid dihysbyddu'r chwiliad dilyniannol yn gyntaf.

## Ceisiadau Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin – Y Banc Gwelliant

6.12 Ym mhob achos lle mai Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n ymgeisio am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad perthnasol fel y'i diffinnir yn y CCA hwn, bydd angen i Gyngor Sir Caerfyrddin gyflwyno adroddiad draenio sy'n rhoi manylion llawn ynghylch dichonoldeb gwaredu dŵr ar y safle neu gerllaw'r safle (cam 1 o'r chwiliad dilyniannol). Os dangosir er boddhad awdurdod cynllunio lleol Sir Gaerfyrddin, a lle bo'n briodol, Dŵr Cymru, na ellir cyflawni hyn, yna mae'r CCA hwn yn caniatáu i Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin hepgor y gofyniad i Gyngor Sir Caerfyrddin symud i Gam 2 o'r broses chwilio dilyniannol. Caiff hyn ei ystyried fesul pob achos yn unigol. Gelwir hyn yn eithriad y Banc Gwelliant.

6.13 Bydd eithriad Banc Gwelliant yn amodol ar:

- Cyngor Sir Caerfyrddin yn bodloni Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin fod ganddo ddigon o capasiti gwelliant wrth gefn eisoes ar y gofrestr drwy ddatblygiadau a chynlluniau eraill i waredu dŵr wyneb; a

- Cyngor Sir Caerfyrddin yn bodloni Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin bod y cynnig o bwys strategol o ran aliniad corfforaethol / gyda'r CDLld drwy gyflwyno adroddiad cyfiawnhau; a

- Cyngor Sir Caerfyrddin yn bodloni Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin na ellir cael gwared ar ddŵr wyneb ar y safle (neu gerllaw) (Cam 1 o'r chwiliad dilyniannol) drwy gyflwyno Adroddiad draenio; ac

- Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin yn fodlon na fydd y swm o gredyd a gymerir o'r gofrestr yn effeithio'n ormodol ar faint o le wrth gefn sydd yna ar y gofrestr gyffredinol gwaredu dŵr wyneb.

6.14 Y cyfiawnhad cynllunio dros weithredu'r dull 'banc gwelliant' yw cefnogi cyfraniad y Cyngor tuag at gyflawni'r CDLld a'i amcanion corfforaethol cysylltiedig. Cyfeirir at Adran 5 o'r CCA hwn, ynghyd ag Atodiad 3 y CCA hwn. Y cyfiawnhad er lles y cyhoedd dros weithredu'r dull 'banc gwelliant' yw bod y Cyngor eisoes wedi buddsoddi symiau sylweddol o arian cyhoeddus i weithredu cynlluniau gwelliant. Oherwydd ei fod yn dibynnu ar ddefnydd buddiol o arian cyhoeddus, dim ond i'r Cyngor y mae'r 'banc gwelliant' ar gael ac ni all datblygwyr preifat ei ddefnyddio.

## Ystyriaethau Eraill

### Ymgynghoriad cyn ymgeisio

6.15 Ar 16 Mawrth 2016, gweithredwyd elfennau allweddol Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (y Ddeddf). Roedd hyn yn cynnwys angen i ddatblygwyr gynnal ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr yng Nghymru. O 1 Awst 2016 roedd yn ofynnol i ymgeiswyr (datblygwyr) a oedd yn cynnig datblygiad mawr ddangos sut yr oeddent wedi cadw at y gofynion ymgynghori newydd wrth gyflwyno ceisiadau cynllunio. Cyfeirir at baragraff 6.5 uchod.

6.16 Mae cyfleoedd clir, fel rhan o broses ymgysylltu ystyrlon ynghylch ymgynghori cyn ymgeisio, i ddatblygwyr weithredu eu cynllun gwelliant arfaethedig yn gynnar. Anogir datblygwyr i sicrhau bod y strategaeth ddraenio ar gael yn rhan o'u cyfres o ddogfennau ymgynghori ynghylch ymgynghori cyn ymgeisio.

### Systemau Draenio Cynaliadwy

6.17 Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Atodlen 3) yn sefydlu Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy mewn cynghorau sir ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygiadau newydd gynnwys nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy sy'n cydymffurfio â Safonau Cenedlaethol. Daeth y ddeddfwriaeth hon i rym ar 7 Ionawr 2019. Cynghorir datblygwyr i gadarnhau'r gofynion yn gynnar – yn enwedig yn rhan o'r broses o lunio'r Adroddiad draenio.

### Llunio lleoedd

6.18 Gallai ymgorffori dull o lunio lleoedd mewn datblygu cysyniad o'r cychwyn cyntaf sicrhau manteision ehangach - gan gynnwys seilwaith gwyrdd. Wrth ddatblygu datrysiadau draenio, mae cyfleoedd i gydnabod cyfleoedd i lunio lleoedd - gan gynnwys llwyddiannau ehangach – e.e. bioamrywiaeth.

# 7.0 MONITRO A RHEOLI

## Llywodraethu ariannol

7.1 Roedd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn seiliedig ar broses llofnodwyr. Mae hwn bellach wedi'i ddiwygio i fod yn ddatganiad o dir cyffredin ar gyfer Cilfach Tywyn. Y llofnodwyr yw Cyngor Sir Caerfyrddin, Dinas a Sir Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru.

## Cofrestr Gwaredu Dŵr Wyneb – Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin

7.2 Bydd Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin yn cadw cofrestr wedi'i diweddaru ynghylch gwaredu dŵr wyneb. Bydd y gofrestr ar gael i'r holl sefydliadau sy'n llofnodi a Llywodraeth Cymru.

7.3 O ran cynigion banc gwelliant Cyngor Sir Caerfyrddin (y mae paragraff 6.12 o'r CCA hwn yn cyfeirio ato), bydd Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin yn rhoi cyfrif ar wahân am gredydau a briodolir i Gyngor Sir Caerfyrddin.

## Amserlen

7.4 Y bwriad yw y bydd y CCA hwn yn cyd-fynd â'r CDLld drwy gydol cyfnod y Cynllun. Dylid nodi bod y CDLld yn destun Adroddiadau Monitro Blynyddol ac adolygiad bob pedair blynedd.

# ATODIAD 1 - CANLLAWIAU TECHNEGOL A CHYFRIFIADAU LLIF

## 1 Cefndir

1.1 Mae'r atodiad hwn yn darparu gwybodaeth i fod yn sail i gyfrifiadau a wneir ar waredu dŵr wyneb fel mesur lliniarol. Bwriedir iddo fod yn sail i'r adroddiadau draenio y bydd gofyn eu llunio a'u cyflwyno i Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin.

1.2 Dylid nodi bod yr wybodaeth yn eglurhaol i raddau helaeth ac yr anogir trafodaethau amserol â rhanddeiliaid o'r herwydd – yn enwedig â Dŵr Cymru. Mae rhestr o'r cysylltiadau allweddol yn Atodiad 2.

## 2 Sail Cyfrifo

### 2.1 Llif Dŵr Budr – preswyl

2.1.1 Dylai'r uchafswm cyfaint fesul eiddo preswyl sy'n cyrraedd y system garthffosiaeth gyhoeddus fod yn seiliedig ar y meini prawf canlynol fel canllaw:

| | |
|---|---|
| Defnydd dŵr | 180 litr/pen/dydd |
| Lwfans ymdreiddiad preswyl | 120 litr/pen/dydd |
| Defnydd amrywiol | 25 litr/pen/dydd |
| Nifer y bobl mewn cartref | 2.5 unigolyn/eiddo |
| Ffactor llif uchaf (yn ystod y dydd) | 2.0 x |

O ystyried y meini prawf uchod, bydd cyfraniad y llif oriau brig o gartref unigol oddeutu:

[(180 + 25) x 2.5 x 2.0] + 120 litr/dydd = 1,145 litr/dydd

Meintioli llifau dŵr budr newydd arfaethedig **= 0.013 litr /eiliad am 1 eiddo preswyl**

### 2.2 Dŵr Budr – arall

2.2.1 Dylai'r uchafswm dŵr budr sy'n llifo i'r system garthffosiaeth gyhoeddus fod yn seiliedig ar y meini prawf canlynol fel canllaw, ond dylai fod yn amodol ar gytundeb gyda Dŵr Cymru fesul achos.

2.2.2 Cyfeirir at dabl 1 ar y dudalen nesaf i gael canllawiau ar lifau ar gyfer eiddo nad ydynt yn eiddo preswyl

2.2.3 **Tabl 1 - Canllawiau ar gyfer Dŵr Budr Amser Brig – arall:**

| Math o eiddo masnachol | Defnydd dŵr l/pen/dydd | Dŵr budr brig (er cymhariaeth) l/pen/eiliad | Dŵr budr brig fesul ardal |
|---|---|---|---|
| Swyddfeydd | 55 | 0.006 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgolion | 50 | 0.005 | |
| Cartrefi Gorffwys | 300 | 0.031 | |
| Ysbytai | 450 | 0.046 | |
| Tafarndai | 15 | 0.002 | |
| Carafanau | 120 | 0.012 | |
| Safleoedd gwersylla | 75 | 0.008 | |
| Gwestai | 200 | 0.021 | |
| Bwytai | 25 | 0.003 | |
| Safleoedd diwydiannol* (defnydd sylweddol o ddŵr yn ddisgwyliedig) | | | 55m3/ hectar /dydd = 2.5 litr yr hectar |
| Safleoedd diwydiannol* (diwydiant ysgafn) | | | 10m3/ hectar /dydd = 0.7 litr /eiliad yr hectar |

* Noder: Ar gyfer safleoedd diwydiannol, canllaw yn unig yw'r ffigurau uchod. Ym MHOB achos, rhaid cysylltu â Dŵr Cymru i gadarnhau'r ffigurau priodol i'w defnyddio

2.2.4 * Noder: Ar gyfer safleoedd diwydiannol, canllaw yn unig yw'r ffigurau uchod. Ym MHOB achos, **RHAID** cysylltu â Dŵr Cymru i gadarnhau y caiff y ffigurau priodol eu defnyddio. Mae'r Ffigurau'n seiliedig ar gyfartaledd y llif dŵr dyddiol yn rhagdybio diwrnod gwaith 8 a 12 awr ar gyfer diwydiannau ysgafn/trwm yn y drefn honno. Mae ffactor brig o x 2 wedi ei ddefnyddio, dwysedd glaw brig = 10.8 mm/awr a ffactorau gwelliant = x 2.

2.2.5 Cynghorir y dylid cysylltu â Dŵr Cymru yn brydlon ym mhob achos.

## 2.3 Llifoedd Dŵr Wyneb

2.3.1 **Ni chaniateir i unrhyw ddŵr wyneb newydd ddod i mewn i'r system.**

2.3.2 At hyn, dylai asesiad o lifoedd dŵr wyneb presennol i'w gwaredu fel mesurau lliniarol fod fel a ganlyn:

2.3.3 Llif stormydd brig yw faint o ddŵr ffo a ddisgwylir fesul ardal m$^2$ ar anterth y storm, a'r llif y byddid yn disgwyl iddo effeithio ar y system ddraenio. Mae hyn yn dibynnu ar hyd y storm (oriau) a'r cyfnod cyn iddi lawio eto. Mae'r Llawlyfr Amcangyfrif Llifogydd yn darparu gwybodaeth ystadegol sy'n berthnasol i wahanol ardaloedd daearyddol. Mae Tabl 2 isod yn crynhoi data Llawlyfr Amcangyfrif Llifogydd ar gyfer cawod law 1:30 y flwyddyn yn ardal Cilfach Tywyn.

| Hyd y storm (oriau) | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm glaw mewn storm (mm) | 30.6 | 39.0 | 45.0 | 49.8 | 53.8 | 57.3 |
| Cyfradd glaw brig (dosbarthiad llinol) mm/awr | 30.6 | 19.5 | 15.0 | 12.5 | **10.8** | 9.6 |
| Cyfradd glaw brig (LlALl (brig) mm/awr | | 28.6 | 26.3 | 34.0 | 22.2 | 20.6 |

**Tabl 2 Uchafbwyntiau yn y Llawlyfr Amcangyfrif Llifogydd a dosbarthiad llinol trymder cawodydd glaw mewn storm am gyfnod o 1:30 y flwyddyn yn ardal Cilfach Tywyn.**

2.3.4 Mae'r ffigur fesul awr ar gyfer hyd o 5-awr, cyfnod dychwelyd o 1 mewn 30-mlynedd, gan ddefnyddio dosbarthiad glawiad llinol, i'w ddefnyddio i gyfrifo dŵr mewn cyfnod ffo oherwydd glaw, h.y. 10.8 mm/awr. Mae hyn yn cyfateb i 10.8 litr/awr/m$^2$, neu **0.003 litr/eiliad/m$^2$**.

2.3.5 Y cyfnod dychwelyd safonol a ddefnyddir yn y diwydiant ar gyfer stormydd yw 1:30 blwyddyn, a dyma'r gyfradd a ddefnyddiwyd yn sail i gyfrifo cyfraddau llif dŵr wyneb wrth ddynodi ardaloedd anhydraidd o faint addas ar gyfer ailgyfeirio systemau draenio. O ganlyniad i'r ffaith bod cysylltiadau newydd yn cyflwyno - i bob pwrpas - lif parhaus newydd, mae'n amlwg nad yw'n bosibl sicrhau cyfatebiaeth i gyfradd llif dŵr wyneb cymharol i liniaru rhag y perygl o golledion cynyddol o orlifiant o garthffosydd cyfun yn y garthffos. Mae'r rhan fwyaf o ddŵr wyneb sy'n llifo i garthffosydd cyfun yn gysylltiedig â glaw, ac felly yn fyrhoedlog. O ganlyniad, er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol y ceir mesurau lliniaru digonol a llai o risg o ollyngiadau carthion mewn stormydd ar gyfer rhai sydd wedi'u gollwng o'r garthffos, o dan amgylchiadau priodol, gellir gofyn am ffin gwelliant ychwanegol wrth aros am gyngor gan Dŵr Cymru.

## 2.4 Gwaredu dŵr wyneb – darluniau enghreifftiol ar gyfer uned breswyl

2.4.1 Gan gynnwys ymyl gwelliant 2x, gellir cyfrifo'r ardal anhydraidd lle mae angen dargyfeirio draeniau fel a ganlyn:

**Arwynebedd wedi'i ailgyfeirio = (fesul llif dŵr budr yr eiddo / fesul metr$^2$ o ddŵr ffo) x 2**
**Arwynebedd = (0.013/0.003) x 2**

Ardal anhydraidd i ddargyfeirio draeniau **= 9m$^2$ fesul eiddo**

## ATODIAD 2 – CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

**Dŵr Cymru**

developer.services@dwrcymru.com 0800 917 265

**Rheoli Datblygu Cyngor Sir Caerfyrddin**

cynllunio@sirgar.gov.uk 01558 825 285

**Corff Draenio Cynaliadwy Sir Gaerfyrddin**

SAB@sirgar.gov.uk 01267 228342

# ATODIAD 3 Y CYD-DESTUN DATBLYGU STRATEGOL A’R BANC GWELLIANT AR GYFER DATBLYGIADAU ARFAETHEDIG CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae CDLld Adnau Drafft (CDLld) Ionawr 2020, fel y’i cefnogir gan y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) Drafft hwn, yn rhoi dull gweithredu clir wrth ystyried cynigion datblygu o fewn ardal gwaith trin dŵr gwastraff Llanelli.

1.2 Mae Adran 2 o’r Atodiad hwn yn adolygu materion sy’n ymwneud â mentrau corfforaethol / adfywio allweddol y Cyngor. Mae hyn gyda golwg ar lunio’r cyd-destun corfforaethol / adfywio ar gyfer buddsoddiad cyhoeddus yn ardaloedd Llanelli / Porth Tywyn. Cyfeirir hefyd at Adran 5 o’r CCA ei hun.

1.3 Mae Adran 3 o’r Atodiad hwn yn ymhelaethu ar yr eithriad a all fod yn berthnasol pan fydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymgeisio am ganiatâd cynllunio. Cyfeirir hefyd at baragraff 6.12 y CCA ei hun. Mae’r CCA yn darparu mecanwaith i’r Cyngor ddefnyddio "gwelliant gormodol" y mae eisoes wedi’i sicrhau yn rhan o 'fuddsoddiad cyhoeddus' a datblygiadau ledled ardaloedd Llanelli a Phorth Tywyn (gan gynnwys cynlluniau i waredu dŵr wyneb). Cafodd ei ddylunio i helpu’r Cyngor i gyflawni ei amcanion adfywio ar draws Llanelli a Phorth Tywyn drwy’r CDLld.

## 2. Y Cyd-Destun Datblygu a Chorfforaethol

2.1 Wrth gydnabod a chydymffurfio â’r ystyriaethau amgylcheddol ac isadeiledd perthnasol a’r darpariaethau / cyfarwyddebau deddfwriaethol, mae’r CCA hwn hefyd yn ceisio hwyluso a chefnogi’r gwaith o gyflawni datblygiadau fel y cawsant eu llunio gan yr CDLld.

### Llanelli a’r Glannau: Cyd-destun Datblygiadol

2.2 Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) yw’r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer ardal gwaith trin dŵr gwastraff Llanelli. Mae’r CDLld yn amlinellu fframwaith ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn ogystal â diogelu’r amgylchedd. Mae’n arwain ac yn hwyluso penderfyniadau buddsoddi yn ogystal â darparu gwasanaethau a seilwaith. Mae’r Cynllun yn pennu lefel y ddarpariaeth a lleoliad tai newydd, cyfleoedd cyflogaeth a defnyddiau eraill, ac yn gosod y fframwaith ar gyfer ystyried yr holl gynigion defnydd tir yn ystod cyfnod y cynllun.

2.3 Mae Sir Gaerfyrddin yn rhan o Ddinas-ranbarth Bae Abertawe sydd hefyd yn cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Sir Benfro, Dinas a Sir Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Wrth ddod â busnesau, Llywodraeth Leol ac ystod o bartneriaid eraill ynghyd, cyhoeddodd y Dinas-ranbarth Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2013–2030. Bydd swyddogaeth y CDLld o ran arwain a chefnogi dyheadau’r Dinas-ranbarth yn ganolog i’w llwyddiant. Mae Bargen Dinas Bae Abertawe yn werth £1.3 biliwn ac fe’i llofnodwyd ym mis Mawrth 2017. Disgwylir i’r Fargen Ddinesig arwain at gynnydd parhaol yn ei werth ychwanegol gros o £1.8 biliwn i Ddinas-ranbarth Bae Abertawe a bydd yn cynhyrchu bron 10 mil o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf. Ceir cyfeiriad at 11 prosiect mawr yn gyffredinol. Yn Sir Gaerfyrddin, cynigir dau brosiect penodol – gan gynnwys y Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd ar hyd arfordir Llanelli – gweler paragraff 2.13 isod. Felly, ceir cydnabyddiaeth o Lanelli ar y lefel ranbarthol strategol hon ac mae ei sefyllfa ddaearyddol mewn cysylltiad ag Abertawe hefyd wedi’i nodi yn hyn o beth.

2.4 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn cyflwyno sail ddeddfwriaethol ar gyfer cyflwyno Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Bydd y Fframwaith, a fydd i bob diben yn disodli Cynllun Gofodol Gymru, yn amlinellu polisïau cenedlaethol mewn cysylltiad â datblygu a defnyddio tir yng Nghymru. Cyfeirir at y cyfeiriad penodol at Fae Abertawe a Llanelli yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (drafft - cyhoeddwyd ar 7 Awst 2019) yn y cyswllt hwn.

2.5 Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno'r posibilrwydd i Gynlluniau Datblygu Strategol ganiatáu ystyried a chynllunio materion 'mwy na lleol' mewn cyd-destun strategol. Mewn cysylltiad â'r cyfeiriad at Fae Abertawe a Llanelli yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft, mae'n debygol iawn y byddai'r cyd-destun trawsffiniol mewn termau gofodol yn cynnwys ardal Llanelli, gyda'r materion hynny o dan ystyriaeth bosibl gan gynnwys tai, cyflogaeth a seilwaith. Cydnabyddir y posibilrwydd o gysylltu ag amcanion y dinas-ranbarth, ac wrth baratoi eu CDLl eu hunain, mae pwyslais eisoes ar gydweithio a thrafod trawsffiniol rhwng Dinas a Sir Abertawe a Sir Gaerfyrddin.

2.6 Symud ymlaen yn Sir Gaerfyrddin - y 5 mlynedd nesaf - yw Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2018 – 2023 (Cymeradwywyd 2018 – Diweddarwyd 2019). Mae'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin dros y pum mlynedd nesaf, gan ymgorffori ei amcanion gwella a lles. Mae hefyd yn cyfeirio at brosiectau a rhaglenni allweddol y Bwrdd Gweithredol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, cyfres o bron 100 o brosiectau a flaenoriaethwyd. Nodir ardal Tyisha, Canol Tref Llanelli, y Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd, ynghyd â Harbwr Porth Tywyn.

2.7 Mae ymgyrch gorfforaethol hefyd i ddarparu 1,000 o gartrefi fforddiadwy newydd ar draws y Sir. Caiff Cynllun Cyflenwi Tai Fforddiadwy 2016-2020 ei gefnogi gan Gwmni Tai'r Cyngor. Derbyniwyd adroddiad "adeiladu mwy o gartrefi - cynyddu ein huchelgais" gan y Cyngor ym mis Chwefror 2019 - gyda fframwaith bandio wedi'i sefydlu i arwain y gwaith. Sylwer y crybwyllir cyfanswm o 917 uned a buddsoddiad o £141m ym mandiau A, B a C. O'r rhain, mae 439 uned a buddsoddiad o £73.5m wedi'i glustnodi ar gyfer ardal Llanelli a'r cylch.

2.8 Mae "Trawsnewidiadau: Cynllun Adfywio ar gyfer Sir Gaerfyrddin 2015 - 2030" yn nodi cynlluniau adfywio'r Cyngor gyda'r bwriad o hwyluso'r gwaith o ddatblygu, gwella a buddsoddi mewn cyflogaeth. Yn y bennod sy'n sôn am y sefyllfa bresennol / adfywio hyd yma, mae llynnoedd Delta a'r Beacon wedi'u dynodi'n safleoedd adfywio strategol, tra bod canol tref Llanelli yn rhan o'r dosbarthiad 'trefi cynradd'. Mae Porth Tywyn wedi'i restru yn y 'trefi marchnad bywiog a pharthau twf y cymoedd'. Yn y dyfodol, dylid nodi bod (a) llain arfordirol Sir Gaerfyrddin a (b) Llanelli wedi'u rhestru fel dau o'r chwe phrosiect trawsnewidiol.

## CDLld Sir Gaerfyrddin 2018-2033 (adnau drafft – Ionawr 2020)

2.9 Mae'r CDLld yn darparu mynegiant gofodol a mecanwaith cyflawni allweddol ar gyfer uchelgeisiau datblygiadol y Cyngor a'r rhanbarth ehangach.

2.10 Mae'r CDLld yn darparu'r fframwaith ar gyfer pob datblygiad o fewn y Sir yn y dyfodol hyd nes 2033. Mae'r weledigaeth yn cynnwys cyfeiriad at y ffaith bod gan Sir Gaerfyrddin economi gref sy'n adlewyrchu ei safle fel ysgogydd hyderus ac uchelgeisiol ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

2.11 Rhestrir isod rai o amcanion strategol (AS) yr CDLld y tybir eu bod yn arbennig o berthnasol i ardal Llanelli / y llain arfordirol, er y gellid dadlau bod cyfatebiaeth gref â'r holl amcanion strategol.

• AS1 Sicrhau bod yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau, yn cael ei ddiogelu a'i wella.

• AS6 Sicrhau bod egwyddorion cynaliadwyedd gofodol yn cael eu cynnal trwy gyfeirio datblygiadau i leoliadau cynaliadwy sydd â mynediad i wasanaethau a chyfleusterau, a rhoi anogaeth i ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

• AS10 Darparu rhif a cymysgedd priodol o dai o ansawdd ledled y Sir, yn seiliedig ar egwyddorion datblygu economaidd-gymdeithasol cynaliadwy a chyfleoedd cyfartal

• AS12 Annog buddsoddiad ac arloesedd mewn ardaloedd gwledig a threfol trwy sicrhau darpariaeth ddigonol i ddiwallu'r angen am waith a chyfrannu ar lefel ranbarthol tuag at gyflawni Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

• AS13 Darparu ar gyfer mentrau twristiaeth cynaliadwy o ansawdd uchel drwy gydol y flwyddyn.

• AS 14 Adlewyrchu'r gofynion sy'n gysylltiedig â chyflwyno datblygiadau newydd, o safbwynt seilwaith caled a meddal (gan gynnwys band eang).

2.12 Cyfeirir hefyd at bolisïau strategol y Cynllun a luniwyd gan roi sylw dyledus i weledigaeth ac amcanion strategol y Cynllun. Er eu bod yn cyfrannu'n hanfodol at weithredu'r strategaeth, nid ydynt yn cynnwys y gyfres lawn o bolisïau. Mae'r Polisïau Strategol yn cynnwys y rheini o natur strategol ac fe'u hategir gan y polisïau a'r cynigion manwl a nodir yn adrannau dilynol y Cynllun hwn. Rhestrir isod y polisïau strategol hynny yr ystyrir eu bod yn arbennig o berthnasol i ardal Llanelli / y llain arfordirol, ond gellid dadlau bod cyfatebiaeth gref â'r holl amcanion strategol.

• Polisi Strategol – SP1: Twf Strategol

• Polisi Strategol – SP 2: Canolfannau Manwerthu a Chanol Trefi

• Polisi Strategol – SP 3: Dull Cynaliadwy o Ddarparu Cartrefi Newydd

• Polisi Strategol – SP 4: Strategaeth Cartrefi Fforddiadwy

• Polisi Strategol – SP 5: Safleoedd Strategol (un o'r cyfryw yw Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd Llanelli)

• Polisi Strategol – SP 6: Cyflogaeth a'r Economi

• Polisi Strategol – SP 8: Seilwaith

• Polisi Strategol – SP 10: Yr Economi Ymwelwyr

• Polisi Strategol – SP 13: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

• Polisi Strategol – SP 16: Dosbarthiad Cynaliadwy – Fframwaith Aneddiadau

2.13 Gan gyfeirio at SP16, mae Llanelli wedi'i nodi'n brif ganolfan yn y CDLld. Mae mabwysiadu Gorchymyn Datblygu Lleol ar gyfer Canol Tref Llanelli yn 2019 yn adlewyrchu'r pwyslais corfforaethol ar ganol y dref. Mae'r buddsoddiadau parhaus yn yr ardal (drwy'r Cyngor a'i bartneriaethau â Llywodraeth Cymru) wedi llwyddo i adfywio ardaloedd a adawyd yn ddiffaith drwy ddirywiad diwydiannol.

2.14 Mae Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd wedi ei gynllunio ar gyfer Llanelli. Disgwylir i'r cynllun cymhleth hwn ar gyfer Llynnoedd Delta ar arfordir Llanelli, sy'n werth £200miliwn, greu yn agos at 2,000 o swyddi a rhoi hwb o £467miliwn i'r economi leol. Yn ogystal â bod yn Sefydliad Gwyddor Bywyd, bydd Canolfan Iechyd Cymunedol yn y pentref yn cynnwys Canolfan Addysg Lles a Chanolfan Gyflenwi Glinigol. Mae canolfan hamdden o fri, llety byw â chymorth a gwesty llesiant hefyd wedi'u cynllunio ar gyfer y pentref, ynghyd â mannau awyr agored wedi'u tirlunio ar gyfer hamddena.

2.15 Nodir Porth Tywyn / Pen-bre yn Ganolfan Wasanaeth yn y CDLld. Mae gan yr anheddle hanes o weithgarwch diwydiannol (sy'n canolbwyntio ar yr harbwr) sydd bellach wedi esblygu i adlewyrchu'r potensial twristiaeth a gynigir gan leoliad ar y glannau a gwerth amwynder uchel. Mae Harbwr Porth Tywyn yn cynnig potensial adfywio. Dylid nodi nad yw Pen-bre yn draenio i waith trin dŵr gwastraff Llanelli, ond mae Porth Tywyn yn gwneud hynny.

2.16 Mae'r gwaith o weddnewid Porth Tywyn yn mynd rhagddo ac eisoes mae nifer o ddatblygiadau cyffrous yn cael eu cyflawni, gyda mwy ar y gweill. Mae adfywio Harbwr Porth Tywyn yn brosiect mawr a gefnogir gan Bartneriaeth Cyd-fenter Arfordir Llanelli rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a Llywodraeth Cymru.

2.17 Mae ardal Llanelli / Porth Tywyn yn yrrwr economaidd ac adfywio allweddol i'r Bartneriaeth Cyd-fenter sy'n cynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin a Llywodraeth Cymru (LlC). Y nod, drwy ddatblygu'r ardal, yw rhoi cyfle i gyflawni twf cynaliadwy mewn ffordd sydd hefyd yn adlewyrchu amcanion y CDLld mewn cysylltiad â thir a ddatblygwyd o'r blaen. Dangosir buddiannau strategol y Gyd-fenter drwy ei daliadau tir sylweddol ac fel y cyfryw mae'r bwriad i waredu, fel rhan o weledigaeth gynhwysfawr tuag at ailddatblygu, yn amlwg iawn.

## 3 Y Banc Gwelliant


3.1 Mae'r CCA yn darparu mecanwaith i'r Cyngor ddefnyddio "gwelliant dros ben" y mae eisoes wedi'i sicrhau fel rhan o 'fuddsoddiad cyhoeddus' a datblygiadau ledled ardaloedd Llanelli a Phorth Tywyn (gan gynnwys cynlluniau gwaredu dŵr wyneb). Ei nod yw helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion adfywio / corfforaethol ledled ardaloedd Llanelli a Phorth Tywyn drwy'r CDLld.

3.2 Y cyfiawnhad cynllunio dros weithredu'r dull 'banc gwelliant' yw cefnogi cyfraniad y Cyngor tuag at gyflawni'r CDLld a'i amcanion corfforaethol cysylltiedig – gan gynnwys y rhai a nodir yn Adran 2 o'r Atodiad hwn. Mae rhagor o wybodaeth am weithredu'r banc gwelliant ym mharagraff 6.13 o'r CCA.


3.3 Y cyfiawnhad dros weithredu dull y 'banc gwelliant' er lles y cyhoedd yw bod y Cyngor eisoes wedi buddsoddi symiau sylweddol o arian cyhoeddus i weithredu cynlluniau gwelliant. Tybir ei bod yn rhesymol bod y gwelliant dros ben a grëir gan y Cyngor ar gael i'w ddefnyddio gan y Cyngor.

# Atodiad 4


Dŵr Cymru
Welsh Water
N
S
E
W
Reproduced by permission of Ordnance Survey on behalf of HMSO. © Crown copyright and database right 2017. All rights reserved. Ordnance Survey License number 100019534.
Map scale: 1:20,000
LLANELLI
BURRY PORT /
PORTH TYWYN
Pembrey/
Pen-bre
Trimsaran
Pen-y-Mynydd
Five
Roads
Llangennech
Loughor
Pwll
Bynea
Llwynhendy
Pemberton
Felinfoel
Dafen
Swiss Valley
Machynys
Sandy
Bryn
Cefn Padrig
RIVER LOUGHOR / AFON LLWCHWR
Llanrhidian Sands
Whiteford Sands
Whiteford Point
Berges Island
Burry Pill
Great Pill
Mud & Sand
Penrhyn Gwyn
Carreg-fach
Carreg Ddu
Salthouse Point
Pen-clawdd
Crofty
Gowerton
Millennium Coastal Park
Wildfowl and Wetlands Centre
Breakwater
Dunes
Lighthouse
Whiteford Burrows
A 484
A 4138
B 4303
B 4304
B 4308
B 4297
B 4317
B 4311
B 4295
A 4240
B 4620


Atodiad 5
Caerfyrddin
Dinbych-y-
Pysgod
Safle Morol Ewropeaidd
(SME) Bae ac Aberoedd
Caerfyrddin
Port Tywyn
Llanelli
Gwyr

## Atodiad 6


Maint
A yw'r cynnig yn ddatblygiad "mawr"?
Gweler Erthygl 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref
(Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012).
Ydy
Nac Ydi
Cynnig heb fod yn ddarostyngedig i'r CCA hyn
Lleoliad
Ydy'r datblygiad yn draenio i Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli?
Ydy
Nac Ydi
Cynnig heb fod yn ddarostyngedig i'r CCA hyn
Ni chaniateir i unrhyw ddŵr wyneb newydd fynd i mewn i'r system
AC
Mae'r cynnig yn amodol ar ofyniad posibl i gael gwared ar Ddŵr Wyneb (DW)
AC
Rhaid cyflwyno Adroddiad Draenio i'r ACLl.
Cyfnod Chwilio Dilyniannol 1
1. Gwaredu DW ar y safle neu'n ffinio ag ef
Ydy
Cynnig yn dangos cysondeb â Pholisi INF4 y CDLl
Nac Ydi
Ai Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r ymgeisydd ?
Ydy
Gall cynigion y Cyngor ddangos cysondeb â Pholisi INF4 y CDLl - yn amodol ar baragraff 6.13 o'r CCA
Nac Ydi
Cyfnod Chwilio Dilyniannol 2
Gwaredu DW oddi ar y safle naill ai:
2a Is-ddalgylch
2b Dalgylch Ehangach
Ydy
Cynnig yn dangos cysondeb â Pholisi INF4 y CDLl
Nac Ydi
A yw'r ACLl wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig i'r datblygwr fynd at Dŵr Cymru i drafod ariannu cynllun gwaredu dŵr wyneb Dŵr Cymru?
Nac Ydi
Nid yw'r cynnig yn gyson â Pholisi INF4 y CDLl
Yes
A yw Dŵr Cymru wedi darparu cadarnhad ysgrifenedig i'r ACLl ei fod wedi dod i gytundeb gyda'r datblygwr mewn perthynas â chyllido cynllun gwaredu dŵr wyneb yn ardal Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli?
Ydy
Cynnig yn dangos cysondeb â Pholisi INF4 y CDLl
Nac Ydi
Nid yw'r cynnig yn gyson â Pholisi INF4 y CDLl